OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2024 Rhif 1109 (Cy. 185)

2024 No. 1109 (W. 185)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2024

The Animal Health (Miscellaneous Fees) (Amendment and Revocation) (Wales) Order 2024

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/645) (Cy. 119) ("y Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid"). Mae'n cynyddu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru o dan y Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid am wasanaethau a ddarperir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Mae hefyd yn dirymu Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Ffioedd ar gyfer Profi Diheintyddion) 1991 (O.S 1991/1168) ("Gorchymyn 1991") o ran Cymru.

Mae erthygl 2 yn diwygio'r Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid er mwyn rhoi, yn lle'r Atodlen, Atodlen newydd sy'n darparu ar gyfer ffioedd uwch am drwyddedu mangreoedd ar gyfer crynoadau anifeiliaid. Mae'r Atodlen newydd yn darparu fel a ganlyn.

(a) Mae Tabl 1 yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd ar gyfer gwerthiannau anifeiliaid neu ganolfannau casglu nad ydynt yn esempt o dan erthygl 3(4) neu (5) o'r Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid. Mae colofn 2 yn gymwys i geisiadau sy'n dod i law a thrwyddedau a adnewyddir ar ôl 30 Tachwedd 2024. Mae'r ffioedd a nodir yng ngholofn 2 yn cynrychioli'r cynnydd canrannol a ganlyn i'r ffioedd cyfredol (wedi ei dalgrynnu i'r cyfanrif agosaf): 14% (rhesi 3, 4 a 5) a 13% (rhes 6).

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order amends the Animal Gatherings (Fees) (Wales) Order 2018 (S.I. 2018/645) (W. 119) ("the Animal Gatherings Order"). It increases fees payable to the Welsh Ministers under the Animal Gatherings Order for services provided by the Animal and Plant Health Agency.

It also revokes the Diseases of Animals (Fees for the Testing of Disinfectants) Order 1991 (S.I 1991/1168) ("the 1991 Order") in relation to Wales.

Article 2 amends the Animal Gatherings Order to substitute a new Schedule providing for increased fees for the licensing of premises for animal gatherings. The new Schedule provides as follows.

(a) Table 1 sets out fees payable for the licensing of premises for animal sales or collection centres that are not exempt under article 3(4) or (5) of the Animal Gatherings Order. Column 2 applies to applications received and renewals undertaken after 30 November 2024. The fees set out in column 2 represent the following percentage increases on the current fees (rounded to the nearest integer): 14% (rows 3, 4 and 5) and 13% (row 6).

(b) Mae Tabl 2 yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd ar gyfer sioeau neu arddangosfeydd nad ydynt yn esempt o dan erthygl 3(4) neu (5) o'r Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid. Mae colofn 2 yn gymwys i geisiadau sy'n dod i law a thrwyddedau a adnewyddir ar ôl 30 Tachwedd 2024. Mae'r ffioedd a nodir yng ngholofn 2 yn cynrychioli'r cynnydd canrannol a ganlyn i'r ffioedd cyfredol (wedi ei dalgrynnu i'r cyfanrif agosaf): 20% (rhes 3), 14% (rhes 4), 20% (rhes 5), 92% (rhes 6) a 44% (rhes 7).

(c) Mae Tabl 3 yn nodi ffioedd atodol sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd. Mae colofn 2 yn gymwys i ymweliadau milfeddygol a gynhelir ar ôl 30 Tachwedd 2024. Mae'r ffioedd a nodir yng ngholofn 2 yn cynrychioli'r cynnydd canrannol a ganlyn i'r ffioedd cyfredol (wedi ei dalgrynnu i'r cyfanrif agosaf): 14% (rhesi 3 a 4) a 9% (rhesi 5 a 6).

Mae erthygl 3 yn dirymu Gorchymyn 1991 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer ffioedd sy'n daladwy am brofi o dan ddeddfwriaeth nad yw mewn grym mwyach.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

(b) Table 2 sets out fees payable for the licensing of premises for shows or exhibitions that are not exempt under article 3(4) or (5) of the Animal Gatherings Order. Column 2 applies to applications received and renewals undertaken after 30 November 2024. The fees set out in column 2 represent the following percentage increases on the current fees (rounded to the nearest integer): 20% (row 3), 14% (row 4), 20% (row 5), 92% (row 6) and 44% (row 7).

(c) Table 3 sets out additional fees payable for the licensing of premises. Column 2 applies to veterinary visits undertaken after 30 November 2024. The fees set out in column 2 represent the following percentage increases on the current fees (rounded to the nearest integer): 14% (rows 3 and 4) and 9% (rows 5 and 6).

Article 3 revokes the 1991 Order which makes provision for fees payable for testing under legislation which is no longer in force.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this Order. A copy can be obtained from Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2024 Rhif 1109 (Cy. 185)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2024

Gwnaed	*6 Tachwedd 2024*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*8 Tachwedd 2024*
Yn dod i rym	*1 Rhagfyr 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 84(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

(**1**) 1981 p. 22. Diffinnir y term "the Ministers" yn adran 86(1)(c). Mae swyddogaethau a roddwyd i "the Ministers" o dan y Ddeddf, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru. Trosglwyddwyd holl swyddogaethau Gweinidog y Goron o dan adran 84(1) o'r Ddeddf, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd unrhyw rai o swyddogaethau eraill Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 84(1) o'r Ddeddf i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan adran 84(1) o'r Ddeddf wedi hynny i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn a oedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, fe'u trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru. Yn rhinwedd paragraff 7 o Ran 2 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae swyddogaethau Gweinidog y Goron wedi eu trosglwyddo heb y gofyniad am gymeradwyaeth y Trysorlys yn adran 84(1).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2024 No. 1109 (W. 185)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Animal Health (Miscellaneous Fees) (Amendment and Revocation) (Wales) Order 2024

Made	*6 November 2024*
Laid before Senedd Cymru	*8 November 2024*
Coming into force	*1 December 2024*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 84(1) of the Animal Health Act 1981(**1**), make the following Order.

(**1**) 1981 c. 22. The term "the Ministers" is defined in section 86(1)(c). Functions conferred on "the Ministers" under the Act are, in so far as exercisable in relation to Wales, vested in the Welsh Ministers. All functions of a Minister of the Crown under section 84(1) of the Act were, so far as exercisable in relation to Wales by the Secretary of State for Wales, transferred to National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). Any other functions of the Secretary of State for Scotland and the Secretary of State for Wales under section 84(1) of the Act were transferred to the Minister of Agriculture, Fisheries and Food by the Transfer of Functions (Agriculture and Food) Order 1999 (S.I. 1999/3141). The Minister for Agriculture, Fisheries and Food's functions under section 84(1) of the Act were later transferred to the Secretary of State by the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food (Dissolution) Order 2002 (S.I.2002/794). These functions of the Secretary of State were, in so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2004 (S.I. 2004/3044). By virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32) they were transferred to the Welsh Ministers. By virtue of paragraph 7 of Part 2 of Schedule 3 to the Government of Wales Act 2006, the functions of the Minister of the Crown are transferred free from the requirement for Treasury approval in section 84(1).

Enwi, cymhwyso a dod i rym

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2024.

(2) Mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 1 Rhagfyr 2024.

Diwygio Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018

2. Yng Ngorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018(**1**), yn lle'r Atodlen rhodder yr Atodlen sydd wedi ei chynnwys yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Dirymu

3. Mae Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Ffioedd ar gyfer Profi Diheintyddion) 1991(**2**) wedi ei ddirymu o ran Cymru.

Title, application and coming into force

1.—(1) The title of this Order is The Animal Health (Miscellaneous Fees) (Amendment and Revocation) (Wales) Order 2024.

(2) It applies in relation to Wales and comes into force on 1 December 2024.

Amendments to the Animal Gatherings (Fees) (Wales) Order 2018

2. In the Animal Gatherings (Fees) (Wales) Order 2018(**1**), for the Schedule substitute the Schedule contained in the Schedule to this Order.

Revocation

3. The Diseases of Animals (Fees for the Testing of Disinfectants) Order 1991(**2**) is revoked in relation to Wales.

Huw Irranca-Davies

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
6 Tachwedd 2024

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
6 November 2024

(**1**) O.S. 2018/645 (Cy. 119), a ddiwygiwyd gan O.S. 2022/1156 (Cy. 239).

(**2**) O.S. 1991/1168, a ddirymwyd o ran Lloegr gan O.S. 2005/379 ac o ran yr Alban gan O.S.A. 2023/143.

(**1**) S.I. 2018/645 (W. 119), amended by S.I. 2022/1156 (W. 239).

(**2**) S.I. 1991/1168, revoked in relation to England by S.I. 2005/379 and in relation to Scotland by S.S.I. 2023/143.

YR ATODLEN Erthygl 2

SCHEDULE Article 2

“YR ATODLEN Erthygl 3

“SCHEDULE Article 3

Tabl 1

Ffioedd sy’n daladwy am drwyddedu mangreoedd ar gyfer gwerthiannau anifeiliaid neu ganolfannau casglu nad ydynt wedi eu heithrio o dan erthygl 3(4) neu (5) o’r Gorchymyn hwn

Colofn 1	*Colofn 2*
Gweithgaredd	***Ffi (£) am geisiadau sy’n dod i law, a thrwyddedau a adnewyddir***
Cais am ddyroddi neu (pan fo’r fangre wedi ei newid yn sylfaenol) ddiwygio trwydded ar gyfer mangre werthu neu ganolfan gasglu pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri risg isel o ran clefydau. Mae’r ffi hon yn cynnwys hyd at 90 munud o amser arolygu.	433
Cais am ddyroddi neu (pan fo’r fangre wedi ei newid yn sylfaenol) ddiwygio trwydded ar gyfer mangre werthu neu fangre sydd i’w defnyddio fel canolfan gasglu, pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri mwy na risg isel o ran clefydau. Mae’r ffi hon yn cynnwys hyd at 2 x 90 o funudau o amser arolygu.	780
Ffi adnewyddu trwydded flynyddol ar gyfer mangre a ddefnyddir ar gyfer gwerthiannau anifeiliaid neu fangre sydd i’w defnyddio fel canolfan gasglu, pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri risg isel o	387

Table 1

Fees payable for the licensing of premises for animal sales or collection centres that are not exempt under article 3(4) or (5) of this Order

Column 1	*Column 2*
Activity	***Fee (£) for applications received, and renewals undertaken***
Application for the issue or (where the premises have been radically changed) amendment of a licence for sale premises or a collection centre where such premises are assessed by a veterinary inspector as presenting a low risk of disease. This fee includes up to 90 minutes of inspection time.	433
Application for the issue or (where the premises have been radically changed) amendment of a licence for sale premises or for use as a collection centre, where such premises are assessed by a veterinary inspector as presenting more than a low risk of disease. This fee includes up to 2 x 90 minutes of inspection time.	780
Annual licence renewal fee for premises used for animal sales or for use as a collection centre, where such premises are assessed by a veterinary inspector as presenting a low disease risk requiring only one	387

ran clefydau, a'i bod yn ofynnol cynnal un ymweliad arolygu yn unig er mwyn penderfynu ar yr adnewyddiad. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 75 munud o amser arolygu.		inspection visit for the determination of the renewal. This fee includes up to 75 minutes of inspection time.	
Ffi adnewyddu trwydded flynyddol ar gyfer mangre a ddefnyddir ar gyfer gwerthiannau anifeiliaid neu fangre sydd i'w defnyddio fel canolfan gasglu, pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri mwy na risg isel o ran clefydau, a'i bod yn ofynnol felly cynnal dau ymweliad arolygu er mwyn penderfynu ar yr adnewyddiad. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 2 x 75 o funudau o amser arolygu.	550	Annual licence renewal fee for premises used for animal sales or for use as a collection centre, where such premises are assessed by a veterinary inspector as presenting more than a low disease risk, and therefore requiring two inspection visits for the determination of the renewal. This fee includes up to 2 x 75 minutes of inspection time.	550

Tabl 2

Ffioedd sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd ar gyfer sioeau neu arddangosfeydd nad ydynt wedi eu heithrio o dan erthygl 3(4) neu (5) o'r Gorchymyn hwn

Table 2

Fees payable for the licensing of premises for shows or exhibitions that are not exempt under article 3(4) or (5) of this Order

Colofn 1	*Colofn 2*	*Column 1*	*Column 2*
Gweithgaredd	***Ffi (£) am geisiadau sy'n dod i law, a thrwyddedau a adnewyddir***	***Activity***	***Fee (£) for applications received, and renewals undertaken***
Cais am drwydded i drefnu sioeau neu arddangosfeydd mewn mangre y mae arolygydd milfeddygol yn asesu ei bod yn peri risg isel o ran clefydau. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 60 munud o amser arolygu.	283	Application for a licence to organise shows or exhibitions on premises assessed by a veterinary inspector as presenting a low risk of disease. This fee includes up to 60 minutes of inspection time.	283
Cais am drwydded i drefnu sioeau neu arddangosfeydd mewn mangre y mae arolygydd milfeddygol yn asesu ei bod yn peri mwy na risg isel o ran clefydau.	467	Application for a licence to organise shows or exhibitions on premises assessed by a veterinary inspector as presenting more than a low risk of	467

Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 90 munud o amser arolygu.		disease. This fee includes up to 90 minutes of inspection time.	
Adnewyddu trwydded mangre sioeau neu arddangosfeydd yn flynyddol pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu nad yw ymweliad arolygu yn ofynnol.	201	Annual licence renewal of show or exhibition premises where a veterinary inspector assesses no inspection visit is required.	201
Adnewyddu trwydded mangre sioeau neu arddangosfeydd yn flynyddol pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod ymweliad arolygu sylfaenol yn ofynnol. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 60 munud o amser arolygu.	329	Annual licence renewal of a show or exhibition premises where a veterinary inspector assesses a basic inspection visit is required. This fee includes up to 60 minutes of inspection time.	329
Adnewyddu trwydded mangre sioeau neu arddangosfeydd yn flynyddol pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod mwy nag ymweliad arolygu sylfaenol yn ofynnol. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 60 munud o amser arolygu.	329	Annual licence renewal of show or exhibition premises where a veterinary inspector assesses more than a basic inspection visit is required. This fee includes up to 60 minutes of inspection time.	329

Tabl 3

Ffioedd atodol sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd

Colofn 1	***Colofn 2***
Gweithgaredd	***Ffi (£) am yr ymweliadau milfeddygol a gynhelir***
Ymweliad milfeddygol ychwanegol at ddiben ystyried cais am drwydded, adnewyddu trwydded yn flynyddol neu ymweliad dilynol yn sgil peidio â chydymffurfio, sy'n cynnwys hyd at 75 o funudau o amser arolygydd milfeddygol ar gyfer yr ymweliad hwnnw.	362

Table 3

Additional fees payable for the licensing of premises

Column 1	***Column 2***
Activity	***Fee (£) for veterinary visits undertaken***
Extra veterinary visit for the purpose of consideration of an application for a licence, annual renewal of a licence or follow-up non-compliance visit, that includes up to 75 minutes of veterinary inspector time for such visit.	362

Ymweliad milfeddygol at ddiben ystyried cais am newid gweithredol yn ystod y flwyddyn, sy'n cynnwys hyd at 75 o funudau o amser arolygydd milfeddygol ar gyfer yr ymweliad hwnnw.	362	A veterinary visit for the purpose of consideration of a request for an in-year operational change, that includes up to 75 minutes of veterinary inspector time for such visit.	362
Tâl atodol ar unrhyw ymweliad pan fo'r amser arolygu milfeddygol yn hwy na'r amser penodedig a ddarperir yn yr Atodlen hon.	24 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir	Additional charge on any visit where the veterinary inspection time exceeds the fixed time provided in this Schedule.	24 per quarter hour or part quarter hour spent
Yr amser a dreulir gan arolygydd milfeddygol yn teithio i'r fangre drwyddedig, neu'r fangre y bwriedir ei thrwyddedu, ac oddi yno, at ddiben gweithgareddau trwyddedu nad ydynt wedi eu heithrio rhag ffioedd o dan erthygl 3(4) neu (5) o'r Gorchymyn hwn.	24 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir, hyd at uchafswm o 144"	Time spent by a veterinary inspector travelling to and from the licensed premises, or premises proposed to be licensed, for the purpose of licensing activities that are not exempt from fees under article 3(4) or (5) of this Order.	24 per quarter hour or part quarter hour spent, up to a maximum of 144 "

©ⓗHawlfraint y Goron 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39615-7

£8.14

9 780348 396157